Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

4 Medi 2020

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020**

Gwnaethom ystyried Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020 yn ein cyfarfod ar 3 Awst gan osod ein **hadroddiad** ar 4 Awst. Gwnaethom ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad yn ein cyfarfod ar 24 Awst.

Cododd yr ail bwynt craffu rhinweddau yn ein hadroddiad bryderon ynghylch hawliau landlordiaid, yn benodol o dan Erthygl 1 Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1").

Mae ein hadroddiad yn nodi:

> "Wrth ystyried a oes modd cyfiawnhau ymyrraeth, rhaid i'r Wladwriaeth ddangos bod gan y rheoliadau nod cyfreithlon sy'n ddigonol i gyfiawnhau cyfyngu hawliau landlordiaid, bod y rheoliadau wedi'u cysylltu'n rhesymol â'r nod hwnnw, na ellir bod wedi defnyddio mesur llai ymwthiol, a bod perthynas resymol o gymesuredd rhwng y modd a ddefnyddir i gyflawni'r nod dan sylw, a'r nod y ceisir ei gyflawni."

Dywed ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn ei bod yn ystyried bod y darpariaethau yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw'r ymateb hwn yn gwneud unrhyw ymdrech i nodi'r cyfiawnhad dros y Rheoliadau. Rydym yn cydnabod bod y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi rhywfaint o wybodaeth gefndir glir a defnyddiol iawn ynghylch effaith troi tenantiaid allan, ond nid yw'n gwneud hynny yng nghyd-destun penodol hawliau dynol. O ystyried arwyddocâd y newid polisi sy'n cael ei gyflwyno, rydym o'r farn y dylid nodi'n gliriach y cyfiawnhad o'r rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau polisi.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried y mater hwn ymhellach.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English